# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mehefin 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.00-09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.15)

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 3 - 6)

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 7 - 11)

**2.4 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 12 - 18)

**2.5 Llythyr at Bwyllgorau Senedd y DU ac Aelodau Seneddol Cymru ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 19 - 20)

**2.6 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwelliant Cyfnod 2 Llywodraeth Cymru i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 21 - 23)

## 3 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafodion Cyfnod 2

(09.15-11.00)

Ar 10 Mai 2023, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, o dan Reol Sefydlog 26.21, ar y drefn a ganlyn ar gyfer trafodion Cyfnod 2: adrannau 2 i 5; adran 1; Teitl Hir.

Yn bresennol ar ran Llywodraeth Cymru:

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dafydd Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwyddorau Bywyd ac Arloesedd, Llywodraeth Cymru

Leanne Roberts, Pennaeth Polisi Diwygio Caffael, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Mari Williams, Uwch Gyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Lowri Lewis, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Dogfennau ategol:

Rhestr o welliannau wedi'u didoli

Grwpio Gwelliannau

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)

Memorandwm Esboniadol

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

5 Mai 2023

Annwyl Russell,

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 30 Mawrth mewn cysylltiad â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Rwyf wedi cymryd y cyfle i ystyried y trawsgrifiad o'r sesiwn, pan godwyd nifer o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor er mwyn archwilio'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer tryloywder a thendro cystadleuol fel rhan o'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Mae paragraffau 145-146 a 176-177 o'r trawsgrifiad yn cynnwys manylion y drafodaeth ar y camau y bydd angen eu dilyn fel rhan o ymarfer tendro cystadleuol o dan y gyfundrefn gaffael yn y dyfodol ac, yn benodol, sut yr ymdrinnir â'r materion hyn ar wyneb y Bil.

Hoffwn egluro sut y bydd y Bil yn ymdrin â'r mater hwn.

Mae adran 10A(2) o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 – a fyddai'n cael ei mewnosod gan adran 3(2) o'r Bil – yn cynnwys darpariaeth i sicrhau bod rhaid i'r rheoliadau yn y dyfodol bennu'r camau sydd i'w cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol. At hynny, mae adran 10A(3) yn nodi bod rhaid i reoliadau yn y dyfodol wneud darpariaeth at ddibenion sicrhau tryloywder a thegwch, sy'n egwyddorion caffael allweddol, yn ogystal â sicrhau y gellir gwirio cydymffurfedd a rheoli gwrthdrawiadau buddiannau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan hynny, nid yw wyneb y Bil ei hun yn nodi'r camau manwl y mae angen i 'awdurdodau perthnasol' eu cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol a sicrhau tryloywder o dan y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig. Caiff y camau hyn eu cynnwys fel rhan o'r manylion yn y rheoliadau yn y dyfodol. Ar ôl adolygu'r trawsgrifiad o'r sesiwn a'r ymatebion i'r materion hyn, roeddwn yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i egluro'r pwyntiau hyn, er cywirdeb.

Os oes unrhyw gwestiynau pellach, neu ragor o feysydd y mae angen eu hegluro, byddai fy swyddogion a minnau'n falch o ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen er mwyn cefnogi'r Bil wrth iddo fynd drwy broses graffu'r Senedd.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, er gwybodaeth.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-EM-1104-23

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyllid

5 Mai 2023

Annwyl Peredur

Cyfeiriaf at adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill a oedd yn cynnwys ei ganfyddiadau a'i argymhellion fel rhan o'r gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ar y Bil ac am y dogfennau ategol a luniwyd.

Rwyf wedi ystyried yr adroddiad yn ofalus ac wedi nodi, yn Atodiad A, fy ymatebion i argymhellion y Pwyllgor cyn y Ddadl Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol a gynhelir ar 9 Mai.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**ATODIAD A**

**BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU)**

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD CRAFFU CYFNOD 1 Y PWYLLGOR CYLLID, 25 EBRILL 2023.**

***Argymhelliad 1:*** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad o'r risgiau a'r effaith ariannol o gael dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd dros dro yng Nghymru a Lloegr***

**Ymateb: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Ar adeg llunio'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gefnogi cyflwyno'r Bil, nid ystyriwyd y byddai'n ymarferol i geisio cynnal asesiad ariannol manwl llawn o'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd. Mae hyn oherwydd, heb wybod faint yn union o newidiadau fydd yn ofynnol i'r gweithdrefnau, trefniadau llywodraethu a chyfundrefnau caffael presennol o ganlyniad i'r Bil, a pha wasanaethau iechyd sydd o fewn cwmpas a'r ffordd y maent yn cael eu caffael rhwng y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl mesur effaith ariannol y gyfundrefn newydd mewn modd cywir ac ystyrlon.

Felly, roedd yr wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnig yr 'amcangyfrif gorau' o effeithiau ariannol y Bil ac o gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar yr adeg benodol honno.

Ystyrir felly fod hyn hefyd yn berthnasol wrth geisio asesu'r risgiau a'r effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â chael dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd dros dro yng Nghymru a Lloegr.

Wrth nodi argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â hyn, bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r 'awdurdodau perthnasol' a'r rhanddeiliaid y bydd cyflwyno'r Bil yn effeithio arnynt, i ystyried a oes modd mesur mewn modd ystyrlon effaith cael dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd dros dro yng Nghymru a Lloegr. Sut bynnag, bydd fy swyddogion yn ceisio darparu'r dystiolaeth orau sydd ar gael a chymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl ar yr effeithiau ariannol a'u cyflwyno fel rhan o'n hymrwymiad i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ar gyfer rheoliadau'r dyfodol.

***<u>Argymhelliad 2:</u> Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o ganlyniad i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a bod digon o amser yn cael ei ddarparu i ganiatáu i'r Senedd ystyried unrhyw oblygiadau ariannol cysylltiedig a fydd yn codi.***

**Ymateb: <u>DERBYN</u>**

Yn dilyn yr ymateb uchod yn Argymhelliad 1 ac yn unol â'r gofynion o dan Reol Sefydlog 27 o 'Reolau Sefydlog Senedd Cymru' a'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, rydym yn gwbl ymroddedig i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i'w gynnwys mewn Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â rheoliadau'r dyfodol.

Bydd y rheoliadau arfaethedig yn y dyfodol yn dilyn proses y 'weithdrefn gadarnhaol', gan ganiatáu yr amserlen briodol i'r Senedd ar gyfer ystyried y rheoliadau drafft a'r dogfennau ategol, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

***<u>Argymhelliad 3:</u> Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y bydd yn archwilio'r canlynol gyda rhanddeiliaid:***

- ***amcangyfrif o'r costau ymgyfarwyddo a gweithredu i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau,***
- ***yr arbedion cost amcangyfrifedig i awdurdodau caffael, darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, a***
- ***chostau parhaus y gyfundrefn newydd.***

**Ymateb: <u>DERBYN MEWN EGWYDDOR</u>**

Fel yr amlinellir yn Argymhelliad 1 uchod, mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a luniwyd wrth gyflwyno'r Bil yn nodi'r 'amcangyfrif gorau' o effeithiau ariannol y Bil.

Cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd costau yn codi ar gyfer awdurdodau perthnasol (gan gynnwys awdurdodau lleol) a darparwyr gwasanaethau mewn perthynas ag ymgyfarwyddo â'r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer gwasanaethau iechyd, ac wrth barhau i'w gweithredu.

Fodd bynnag, gan nad yw'n hysbys beth fydd y costau hynny, mae'n anodd mesur effaith ariannol lawn y gyfundrefn newydd er mwyn darparu asesiad cywir o'r effeithiau ariannol ar hyn o bryd. Bydd dadansoddiad pellach o'r costau yn cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o'r gwaith i ddatblygu manylion rheoliadau'r dyfodol, gan gynnwys mesurau i ddeall unrhyw arbedion cost a'r costau parhaus wrth weithredu'r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig. O ganlyniad, bydd fy swyddogion yn ceisio darparu'r dystiolaeth orau sydd ar gael a chymaint o wybodaeth ag sy'n ymarferol bosibl fel rhan o'r ymrwymiad i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ar gyfer craffu ar reoliadau'r dyfodol.

***<u>Argymhelliad 4:</u>* Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro ei dull o fonitro ac adolygu gweithrediad Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), gan gynnwys yr amserlenni arfaethedig.**

**Ymateb: <u>DERBYN</u>**

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r broses o weithredu'r Bil hwn, ynghyd ag effeithiau ei ddarpariaethau, yn y cyfnod ôl-gweithredu.

Nodaf argymhelliad y Pwyllgor a byddaf yn mynd ati gyda'r nod o sicrhau bod darpariaethau yn cael eu cynnwys mewn canllawiau statudol ar gyfer y gyfundrefn newydd a fydd yn monitro defnydd ac effeithiolrwydd mewn modd amserol.

Wrth lunio rheoliadau a chanllawiau statudol yn y dyfodol, bydd fy swyddogion a minnau yn ystyried y dulliau mwyaf ystyrlon o fonitro gweithrediad allbynnau'r Bil. Byddwn yn mynd ati i wneud hyn gan ystyried adborth parhaus gan randdeiliaid ar effeithiolrwydd y gyfundrefn newydd arfaethedig, a chysoni ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu hysgogi gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU o dan ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

18 Mai 2023

Annwyl Huw,

Cyfeiriaf at adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill a oedd yn cynnwys ei ganfyddiadau a'i argymhellion fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Rhoddais fy ymateb bras i argymhellion y Pwyllgor fel rhan o'r ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mai, pan ymrwymais hefyd i ddarparu ymateb ysgrifenedig llawn. Mae'r ymateb hwnnw ynghlwm yn Atodiad A.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil ac am y dogfennau ategol a luniwyd.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD A**

**BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU)**

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD CRAFFU CYFNOD 1 Y PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A'R CYFANSODDIAD, 25 EBRILL 2023.**

***<u>Argymhelliad 1:</u> Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i newid pennawd yr adran 116A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sydd i'w fewnosod gan adran 2 o'r Bil, i'w gwneud yn glir y gall darpariaethau'r Bil Caffael, ar ôl iddo ddod i rym, gael eu datgymhwyso mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd gan sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru.***

**Ymateb: GWRTHOD**

Rwy'n deall pam y mae'r Pwyllgor wedi codi'r mater hwn mewn perthynas â chyfeirio'n benodol at awdurdodau lleol ym mhennawd yr adran newydd, sydd i'w mewnosod yn Neddf Caffael 2023.

Wrth ddatblygu'r Bil, roeddem yn ymwybodol y dylai'r geiriad geisio adlewyrchu'r dull gweithredu a'r pwerau sy'n cael eu dilyn gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ar gyfer ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr, ac y dylai'r geiriad hefyd ddangos bod y pwerau y mae Gweinidogion Cymru yn eu ceisio yn union yr un fath â rhai Gweinidogion y Goron yn y cymal blaenorol.

At hynny, roeddem yn ymwybodol hefyd fod awdurdodau lleol yn caffael ystod eang o nwyddau a gwasanaethau y tu allan i 'wasanaethau iechyd' fel y'u diffinnir gan y Bil. Mewn gwirionedd, pe cyfeirir yn benodol at awdurdodau lleol ym mhennawd yr adran newydd, gellid dehongli bod i gyfundrefn gaffael arfaethedig y gwasanaeth iechyd gymhwysiad ehangach ar gyfer awdurdodau lleol. Byddai hyn yn achosi dryswch ac yn awgrymu bod y pŵer datgymhwyso yn berthnasol i'r holl wasanaethau sy'n cael eu caffael gan awdurdodau lleol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir bod awdurdodau lleol yn cael eu henwi yn 'awdurdodau perthnasol' o dan adran 10A(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y mae i'w mewnosod gan adran 3 o'r Bil.

Am y rhesymau hyn, nid wyf yn derbyn argymhelliad 1 gan y Pwyllgor.

***<u>Argymhelliad 2:</u> Dylai’r Gweinidog rannu, ar gyfer ymgynghori cyhoeddus, fersiynau drafft o’r rheoliadau sydd i’w gwneud o dan yr adran 10A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, er mwyn llywio eu datblygiad pellach cyn gosod rheoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd.***

**Ymateb: GWRTHOD**

Rydym wedi llwyr ymrwymo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddorion gweithredol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu rheoliadau yn y dyfodol sy’n ymwneud â’r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

O ganlyniad, bydd y rheoliadau yn cael eu datblygu’n uniongyrchol mewn partneriaeth â'r 'awdurdodau perthnasol' fel y'u diffinnir yn y Bil, gan gynnwys GIG Cymru, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy amrywiol lwybrau, gan gynnwys drwy gynnal deialog â sefydliadau cynrychioliadol a sefydlu gweithgorau i ddatblygu a mireinio'r rheoliadau.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod angen inni sicrhau cysondeb â'r newidiadau sy’n cael eu hysgogi gan gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r bwlch amser a'r risgiau cysylltiedig o fod â dwy gyfundrefn gaffael wahanol ar waith ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Cyfyngedig o ran gwerth, o safbwynt gweithredol, fydd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau <u>drafft</u> (yn ychwanegol at yr ymgynghoriad sydd wedi’i drefnu ar gyfer <u>datblygu'r</u> rheoliadau). Pe bai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y rheoliadau drafft, byddai’n arwain at oedi sylweddol o safbwynt gweithredu’r gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac o safbwynt cysoni â’r newidiadau arfaethedig i’r gyfundrefn gaffael yn Lloegr.

Nid wyf yn teimlo bod angen prosesau ymgynghori sy’n ychwanegol at y rhai yr ymrwymwyd iddynt eisoes, ac felly nid wyf yn derbyn argymhelliad 2 gan y Pwyllgor.

***<u>Argymhelliad 3:</u> Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i beidio â gwneud rheoliadau o dan yr adran 10A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 nes bod 60 diwrnod wedi mynd heibio ers gosod y rheoliadau drafft.***

**Ymateb: GWRTHOD**

Fel y manylir uchod yn fy ymateb i argymhelliad 2 gan y Pwyllgor, rydym yn ymwybodol bod angen inni fod yn gyson â'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hysgogi gan gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr cyn gynted â phosibl.

Bydd rheoliadau yn y dyfodol yn dilyn llinell amser ddiofyn y llywodraeth ar gyfer craffu ar osod rheoliadau, sy'n 20 o ddiwrnodau drwy’r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn darparu i'r Senedd yr amserlen briodol ar gyfer craffu ar y rheoliadau cyn pleidleisio a fydd yn eu cymeradwyo ai peidio.

Bydd gosod amserlenni ychwanegol ar gyfer gwaith craffu ar y rheoliadau gan y Senedd yn arwain at oedi cyn cyflwyno'r gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Gallai'r gofyniad hwn hefyd lesteirio ein gallu i ymateb i unrhyw newidiadau i reoliadau'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr a gyflwynir gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU mewn modd amserol yn y dyfodol, gan achosi'r risg o ddiffyg cysondeb rhwng y cyfundrefnau caffael a fydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol.

Felly, nid wyf yn derbyn argymhelliad 3 gan y Pwyllgor.

***<u>Argymhelliad 4:</u> Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth baratoi rheoliadau i'w gwneud o dan yr adran 10A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w mewnosod gan y Bil.***

**Ymateb: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Mae argymhelliad 4 gan y Pwyllgor mewn perthynas ag ymgynghori yn cydgysylltu ag argymhelliad 5 gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r ddau argymhelliad yn ceisio gwelliant i'r Bil i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori mewn perthynas â rheoliadau yn y dyfodol.

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi llwyr ymrwymo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddorion gweithredol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig.

Fodd bynnag, nodaf sylwadau'r ddau bwyllgor a'r awydd i sicrhau bod yr unigolion a'r grwpiau priodol yn cael cynnig y cyfle yn ffurfiol i gyfrannu at y broses o baratoi'r rheoliadau.

Felly, er na allaf dderbyn yn llawn y geiriad a awgrymir yn argymhelliad 4 adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac argymhelliad 5 adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rwy'n hapus i dderbyn yr argymhellion mewn egwyddor a byddaf yn ceisio cyflwyno gwelliant yn ystod Cyfnod 2 sy'n rhoi ymgynghori ar ddatblygu'r rheoliadau ar wyneb y Bil.

***<u>Argymhelliad 5:</u> Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth baratoi canllawiau ynglŷn â chydymffurfio â rheoliadau a wneir o dan yr adran 10A newydd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w mewnosod gan y Bil.***

**Ymateb: GWRTHOD**

Yn dilyn fy ymateb i argymhelliad 4 uchod, rwyf wedi ymrwymo i gyflwyno gwelliant mewn perthynas ag ymgynghori ar ddatblygu rheoliadau yn y dyfodol.

Bydd y rheoliadau yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â’r awdurdodau perthnasol, ac, o ganlyniad, byddant yn llywio'r canllawiau dilynol sy'n esbonio'r gofynion yn y rheoliadau hynny.

At hynny, mae angen inni sicrhau bod gennym ddull a fydd yn hyblyg ac yn ystwyth ac a fydd yn ei gwneud yn bosibl inni newid y canllawiau mewn modd priodol ac amserol i sicrhau bod gennym gyfundrefn sy'n addas ar gyfer y diben. Dylai’r gyfundrefn honno fod yn seiliedig ar yr arfer gorau, a dylid ystyried adborth parhaus gan randdeiliaid a defnyddwyr gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil y Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig pan fydd honno wedi cael ei rhoi ar waith yn Lloegr.

O'r herwydd, nid wyf yn ystyried ei bod yn ymarferol nac yn angenrheidiol cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar lunio'r canllawiau i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Felly, nid wyf yn derbyn argymhelliad 5 gan y Pwyllgor.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS

Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddHealth@senedd.wales

18 Mai 2023

Annwyl Russell,

Rwy'n cyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ar 28 Ebrill gyda'i ganfyddiadau a'i argymhellion fel rhan o broses graffu Cyfnod 1 ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Nodwyd fy ymatebion i argymhellion y Pwyllgor fel rhan o'r ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 9 Mai, pan ymrwymais hefyd i ddarparu ymateb ysgrifenedig llawn. Mae hwn ar gael yn Atodiad A.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor unwaith yn rhagor am graffu ar y Bil ac am ei ddogfennaeth ategol.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD A**

**BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU)**

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD CRAFFU CYFNOD 1 Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, 28 EBRILL 2023.**

***Argymhelliad 1:*** ***Dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), ond dylai Aelodau o'r Senedd ystyried y materion a amgylchir yn ein hadroddiad drwy gydol eu gwaith craffu ar y Bil ac unrhyw reoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano.***

**Ymateb: DERBYN**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith pwyllog wrth graffu ar y Bil. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod yr angen i gyflwyno'r Bil hwn a'i fod wedi argymell y dylai'r Senedd gytuno ag Egwyddorion Cyffredinol y Bil.

***Argymhelliad 2:*** ***Yn ei hymateb i'n hadroddiad, ac yn ystod dadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth a sicrwydd ynghylch y modd y bydd y ddarpariaeth yn adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) yn sicrhau bod trefniadau digonol wedi'u hymgorffori mewn unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i sicrhau ei bod yn gweithredu'n agored, yn dryloyw ac mewn modd sy'n rhoi hyder i ddarparwyr a darpar ddarparwyr, yn ogystal â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth ddarparu'r wybodaeth a'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio a rhoi sylwadau ar y galwadau rydym wedi'u clywed y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer awdurdodau perthnasol i ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau caffael.***

**Ymateb: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Rwyf wedi ystyried argymhelliad y Pwyllgor a'i gais i ddarparu sicrwydd penodol bod mesurau diogelu digonol ar waith i sicrhau bod y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw, a bod barn cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei hystyried.

Rwy'n hapus i dderbyn argymhelliad 2 gan y Pwyllgor mewn egwyddor, a hoffwn drafod y pwyntiau a godwyd o dan yr argymhelliad hwn fesul un:

- ***Darpariaethau ar gyfer bod yn agored ac yn dryloyw o dan y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd.***
  Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod mater tryloywder o dan y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig wedi cael ei ystyried yn ofalus yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil.

Mae darpariaethau presennol ar wyneb y Bil eisoes yn cynnwys yr egwyddorion caffael allweddol ynghylch bod yn agored ac yn dryloyw. Mae'r adran 10A(3) newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y mae i'w mewnosod gan adran 3(2) o'r Bil, yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau yn y rheoliadau a wneir yn y dyfodol at ddiben sicrhau tryloywder, tegwch a chydymffurfiaeth, ac i reoli achosion o wrthdaro buddiannau. Bydd y manylion o ran sut y caiff yr egwyddorion hyn eu hymgorffori drwy'r holl gyfundrefn newydd arfaethedig yn cael eu datblygu a'u nodi'n benodol yn y rheoliadau a'r canllawiau statudol a wneir yn y dyfodol. Ymhlith enghreifftiau o'r ffordd y gallai hyn weithio'n ymarferol y mae gofynion i 'awdurdodau perthnasol' gyhoeddi manylion dyfarniadau contract drwy weithdrefnau adrodd y cytunwyd arnynt, sefydlu sail resymegol gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau a'u cofnodi, neu gyhoeddi hysbysiadau ar gyfer proses dendro gystadleuol.

Felly, rwy'n hyderus bod y darpariaethau sydd eisoes ar wyneb y Bil yn rhoi'r mesurau diogelu sydd eu hangen er mwyn sicrhau y bydd y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw.

- ***Barn cleifion a defnyddwyr gwasanaethau***

  Nodaf sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau caffael.

  Mae darparu gwasanaethau iechyd sy'n gweithio i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn hollbwysig. Fodd bynnag, rhaid inni gadw mewn cof yr agweddau ymarferol ar ymgynghori â'r cyhoedd, ar y cyd â chyflawni contractau gwasanaeth unigol, wrth geisio lleihau biwrocratiaeth ar gyfer 'awdurdodau perthnasol' a darparwyr gwasanaethau ar yr un pryd.

  Felly, byddaf yn ystyried ymhellach sut y gellid adlewyrchu barn defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a wneir yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried rôl 'Llais' a sut y gallai gyfrannu at gyflawni'r amcan hwn.

***<u>Argymhelliad 3:</u>* Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno diwygiadau i'r diffiniad yn adran 10A(1)(b) newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) i egluro mai dim ond nwyddau a/neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig yn 'sylweddol' neu'n 'uniongyrchol' â'r gwasanaeth iechyd, all gael eu caffael o dan unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd.**

**Ymateb: GWRTHOD**

Rwy'n deall sylwadau'r Pwyllgor o ran yr angen i sicrhau bod 'caffael cymysg' o dan y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig yn cael ei ddiffinio mewn modd clir a chyfyng.

Mae adran 10A(1)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, i'w mewnosod gan adran 3(2) o'r Bil, yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ar gyfer y prosesau a'r amcanion sydd i'w dilyn gan ‘awdurdodau perthnasol’ wrth gaffael nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n ‘gysylltiedig â’ gwasanaethau iechyd (h.y. ‘caffael cymysg’).

Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ar gyfer ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig yn Lloegr, lle caiff y profion mawl ar gyfer ‘caffael cymysg’ eu cynnwys yn ei rheoliadau sydd ar ddod. Rwy'n gwybod y gallai'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr gynnwys profion a fydd ond yn caniatáu gwasanaethau gofal iechyd sydd o fewn cwmpas, i gael eu cymysgu â nwyddau neu wasanaethau eraill sydd fel arfer yn cael eu caffael y tu allan i'r Gyfundrefn honno, pan nad oes modd eu cyflenwi'n rhesymol o dan gontract ar wahân, a phan mai elfen gwasanaeth gofal iechyd y Gyfundrefn honno yw'r elfen â'r gwerth uchaf.

Rydym yn awyddus i gadw'r opsiwn i wneud ein cyfundrefn gaffael arfaethedig yn gydnaws â'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig yn Lloegr. Yn unol â hynny, nid wyf o'r farn ei bod yn synhwyrol i osod rhagor o brofion ar wyneb y Bil ac i ymwahanu oddi wrth y dull a ddefnyddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd. Felly, rwy'n dal i fod o'r farn mai yn y rheoliadau a wneir yn y dyfodol y mae’r lle gorau i gynnwys darpariaethau sy'n ymdrin â'r profion manwl ar gyfer ‘caffael cymysg’, yn hytrach na thrwy ychwanegu rhagor o feini prawf ar wyneb y Bil.

Drwy wneud hyn, bydd y Bil hefyd yn cyd-fynd â chynigion ar gyfer ‘caffael cymysg’ fel rhan o Fil Caffael Llywodraeth y DU, gan sicrhau bod dull clir ac ystyrlon yn cael ei ddefnyddio, a bod y gyfundrefn gaffael briodol yn cael ei chymhwyso yn gywir.

Felly, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

***<u>Argymhelliad 4:</u> Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i asesu a fyddai diwygiadau tebyg i'r rhai a gynigir ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru hefyd yn fuddiol ar gyfer caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol.***

**Ymateb: DERBYN**

Nodaf argymhelliad y Pwyllgor y dylid ystyried a all diwygiadau tebyg i brosesau caffael fod o fudd i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol.

Ein polisi yn y lle cyntaf yw bod yn gydnaws â Chyfundrefn Dethol Darparwyr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, ac nid yw’r Gyfundrefn honno’n cynnwys caffael gwasanaethau gofal cymdeithasol <u>ar wahân</u>. Mae amryw o gymhlethdodau cyfreithiol sy’n codi mewn cysylltiad â chaffael gofal cymdeithasol hefyd yn fater y mae’n rhaid ei ystyried. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn ystyried ehangu cwmpas y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar hyn o bryd i gynnwys gofal cymdeithasol ar wahân.

Fodd bynnag, rwy'n hapus i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor i asesu ac adolygu ein safbwynt mewn perthynas â chaffael gwasanaethau gofal cymdeithasol ar ryw bwynt yn y dyfodol.

***<u>Argymhelliad 5:</u>* Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau i gynnwys gofynion ar wyneb Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid cyn i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran newydd 10A(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w fewnosod gan adran 3 o'r Bil) gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.**

**Ymateb: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Mae argymhelliad 5 gan y Pwyllgor mewn cysylltiad ag ymgynghori yn cydgysylltu ag argymhelliad 4 gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad. Mae'r ddau argymhelliad yn ceisio gwelliant i'r Bil er mwyn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad mewn cysylltiad â rheoliadau a wneir yn y dyfodol.

Fel y nodais yn y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol ac yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, rydym wedi ymrwymo'n llawn i ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar yr egwyddorion gweithredol er mwyn llywio datblygiad rheoliadau a wneir yn y dyfodol ar gyfer y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig.

Fodd bynnag, nodaf sylwadau'r ddau Bwyllgor a'r awydd i sicrhau bod yr unigolion a'r grwpiau priodol yn cael cynnig y cyfle yn ffurfiol i gyfrannu at y broses o lunio'r rheoliadau.

Felly, er nad oes modd imi dderbyn yn llawn y geiriad arfaethedig a nodir yn argymhelliad 5 o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac argymhelliad 4 o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, rwy'n hapus i dderbyn yr argymhellion mewn egwyddor a byddaf yn ceisio cyflwyno gwelliant yn ystod Cyfnod 2 sy'n rhoi ymgynghori ar ddatblygu'r rheoliadau ar wyneb y Bil.

***<u>Argymhelliad 6:</u>* Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod y gwaith o weithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd a gofynion y gyfundrefn honno (a ddisgwylir yng ngwanwyn 2024) yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac ar gael i'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys awdurdodau perthnasol, a darparwyr neu ddarpar ddarparwyr yn y sector preifat a thrydydd sector.**

**Ymateb: DERBYN**

Nodaf argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â chyfathrebu ag ‘awdurdodau perthnasol’ a rhanddeiliaid ynghylch gofynion y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig, ac rwy'n ei dderbyn. Mae hyn hefyd yn cydgysylltu ag argymhelliad 9 gan y Pwyllgor mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig (neu eu cynrychiolwyr).

Caiff y manylion ynghylch sut y byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid eu pennu fel rhan o gynllun cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar

ddatblygu a gweithredu'r rheoliadau a wneir yn y dyfodol ar gyfer y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn gwybod bod angen fod yn gydnaws â'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r hyfforddiant y bwriedir eu gwneud gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig a'r diwygiadau caffael ehangach o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU.

Rwyf hefyd wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o fanylion ar yr ymgysylltu arfaethedig â rhanddeiliaid maes o law.

***<u>Argymhelliad 7:</u> Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd effaith ac effeithiolrwydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), ac unrhyw reoliadau a chanllawiau a wneir oddi tano, yn cael eu monitro a'u hadolygu. Dylai hyn gynnwys eglurder ar yr amserlenni ar gyfer unrhyw gamau gweithredu, a chadarnhad y bydd canlyniadau unrhyw adolygiad yn cael eu cyhoeddi.***

**Ymateb: DERBYN**

Mae argymhelliad 7 gan y Pwyllgor yn cydgysylltu ag argymhelliad 4 o adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn cysylltiad â monitro ac adolygu effaith y Bil.

Nodaf yr argymhelliad gan y ddau bwyllgor, ac rwy'n ei dderbyn. Byddaf yn ceisio sicrhau bod darpariaethau yn cael eu cynnwys mewn canllawiau statudol i fonitro'r defnydd o'r gyfundrefn gaffael newydd a'i effeithiolrwydd mewn modd amserol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi ein hymrwymiad i fonitro ac adolygu'r broses o weithredu'r Bil hwn, ynghyd ag effeithiau ei ddarpariaethau, yn y cyfnod ar ôl gweithredu.

Wrth ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a wneir yn y dyfodol, byddaf yn gweithio gyda'm swyddogion i ystyried y dulliau mwyaf ystyrlon ar gyfer monitro'r ffordd y caiff allbynnau'r Bil eu gweithredu, gan gadw mewn cof adborth parhaus gan randdeiliaid ar effeithiolrwydd y gyfundrefn newydd arfaethedig, a'r gallu i addasu a bod yn gydnaws ag unrhyw newidiadau a gychwynnir yn y dyfodol gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o dan ei Chyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig.

***<u>Argymhelliad 8:</u> Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i roi rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a ragwelir) yn adlewyrchu'r polisi ehangach a'r cyd-destun deddfwriaethol a strategol, yn gyson â'r cyd-destun hwnnw ac yn cyfrannu ato, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru); y rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG; ac ymrwymiadau i fod yn Genedl Masnach Deg ac yn Genedl Dim Datgoedwigo, datblygu'r Economi Sylfaenol, dileu caethwasiaeth fodern o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, mesur allyriadau defnydd o ran carbon, a Sero Net a thargedau colli bioamrywiaeth.***

**Ymateb: DERBYN**

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor a byddaf yn sicrhau y caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiweddaru ar ôl proses graffu Cyfnod 2 i adlewyrchu'r ffordd y mae'r Bil a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol a wneir yn y dyfodol yn ystyried y nodau deddfwriaethol, strategol a pholisi ehangach a nodwyd uchod.

***Argymhelliad 9:*** ***Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod y broses o ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol o dan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon â phobl â nodweddion gwarchodedig (neu eu cynrychiolwyr).***

**Ymateb: DERBYN**

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor. Rwyf wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o fanylion ar yr ymgysylltu arfaethedig â rhanddeiliaid maes o law, fel y nodwyd uchod yn fy ymateb i argymhelliad 6.

***Argymhelliad 10:*** ***Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i egluro bod awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.***

**Ymateb: DERBYN**

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor a byddaf yn sicrhau y caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiweddaru ar ôl proses graffu Cyfnod 2 i egluro bod awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

***Argymhelliad 11:*** ***Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau o dan adran 10A newydd o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 3 o Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)) gerbron y Senedd, dylai'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y rheoliadau gynnwys asesiad a yw unrhyw un o'r amcanion yn y rheoliadau yn ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 fel y maent yn ymwneud â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd, ac os felly a oes risg y gallai effaith ymarferol yr amcanion gael ei thanseilio.***

**Ymateb: DERBYN**

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor a byddaf yn sicrhau y caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiweddaru ar ôl proses graffu Cyfnod 2 i gynnwys manylion asesiadau mewn perthynas â ph'un a oes unrhyw amcanion yn y rheoliadau sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jessica Morden AS

Cadeirydd y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol

Y Gwir Anrh. Arglwydd Hunt o Gilgwri MBE

Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi

24 Mai 2023

Annwyl gyfaill

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ("Bil CGI") Llywodraeth Cymru yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Mae wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 (egwyddorion cyffredinol) a Chyfnod 2 (y pwyllgor yn ystyried gwelliannau).

Fel y gwyddoch efallai, mae Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi cyflwyno Bil CGI mewn ymateb i'r diwygiadau a ragwelir i'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd ar gyfer Lloegr. Mae'r diwygiadau hynny'n cynnwys y cynnig i gyflwyno Cyfundrefn Dethol Darparwyr ("PSR") gan ddefnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau a fewnosodwyd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 gan adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 ("Deddf 2022") a'r pŵer yng nghymal 119 o'r Bil Caffael (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus) i un o Weinidogion y Goron ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Caffael pan fo darpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan Ddeddf GIG 2006 yn gymwys. Byddai Bil CGI, pe bai'n cael ei basio, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Wrth siarad am Fil CGI pan gafodd ei gyflwyno i'r Senedd, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"Bydd y darpariaethau yn y Bil a'r rheoliadau yn y dyfodol yn hwyluso'r hyblygrwydd hwnnw, gan ddarparu mecanwaith cefnogol sy'n ceisio cynnal y tegwch, o ran caffael presennol, yng ngwasanaethau iechyd y GIG rhwng Cymru a*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

> *Lloegr. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o effaith anffafriol ar GIG Cymru oherwydd gweithredu trefn gaffael wahanol gan y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Bydd yn cadw'r gallu i'r GIG yng Nghymru gomisiynu darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol ar sail cyd-gydymffurfio a chydweithredu, ac yn ei dro yn cefnogi ac optimeiddio adnoddau ariannol a staff, gan gefnogi'r GIG yng Nghymru i ddarparu'n effeithlon ac effeithiol".*[1]

Drwy gydol gwaith craffu'r Senedd ar Fil CGI mae'r Gweinidog wedi dweud yn gyson y bydd y pwerau sydd ynddo yn cynnig y "cyfle a'r gallu i gysoni os bydd awydd [gan Lywodraeth Cymru] [g]wneud hynny", [2] ond na fydd yn pennu manylion unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaeth iechyd yng Nghymru nes ei bod wedi ystyried manylion terfynol PSR Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.

Mae cymhlethdod y cyd-destun polisi a deddfwriaethol, a'r rhyngberthnasoedd a'r dibyniaethau rhwng diwygiadau caffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a Lloegr, a'r diwygiadau caffael ehangach yn y sector cyhoeddus sy'n digwydd ar sail Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon fel y'u nodir yn y Bil Caffael, wedi bod yn thema gyson yn ystod ein gwaith craffu.

Bydd unrhyw reoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU o dan adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 a chymal 119 o'r Bil Caffael yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol yn Senedd y DU. Ar y sail hon, cytunwyd i ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at ein hadroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a gofyn, pan fyddwch yn craffu ar reoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 a chymal 119 o'r Bil Caffael, eich bod yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl i Gymru, gan gynnwys unrhyw faterion trawsffiniol.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

---

[1] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn [paragraff 236], 14 Chwefror 2023

[2] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 30 Mawrth 2023

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid

24 Mai 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Gwelliant y Llywodraeth Cyfnod 2**

Heddiw rwyf wedi cyflwyno Gwelliant y Llywodraeth ar gyfer Cyfnod 2 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Mae'r tabl Diben ac Effaith (copi wedi'i amgáu yn **Atodiad A**) yn rhoi esboniad o'r gwelliant hwn.

Gwneir y gwelliant mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Craffu; yn benodol mewn ymateb i argymhelliad 5 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac argymhelliad 4 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ystyriwyd y ddau argymhelliad gyda'i gilydd, gan fod y ddau yn ceisio gosod dyletswydd i ymgynghori mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan adran 10A(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w gyflwyno gan adran 3 o'r Bil) ar wyneb y Bil.

Yn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar 9 Mai ac yn yr ohebiaeth ddilynol at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nodais er nad oeddem yn gallu derbyn yr union eiriad a awgrymwyd yn y ddau argymhelliad, fy mod yn hapus i dderbyn argymhellion y ddau bwyllgor mewn egwyddor. Felly, rwyf wedi cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 sy'n rhoi gofyniad ar wyneb y Bil i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 10A(1). Diben gwelliant arfaethedig y Llywodraeth yw darparu tir canol rhwng y ddau argymhelliad a gynigiwyd gan y ddau Bwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe hoffwn i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i'r tri Phwyllgor am graffu ar y Bil a'r dogfennau cefnogi.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# THE HEALTH SERVICE PROCUREMENT (WALES) BILL – STAGE 2 GOVERNMENT AMENDMENT

This table provides information about the amendment tabled in the name of Eluned Morgan MS on 24 May 2023.

| No. | GOVERNMENT AMENDMENT | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | PURPOSE AND EFFECT |
|---|---|---|---|
| 1. | Section 3, page 2, after line 19, insert—<br>‘() Before making regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must carry out such consultation as they consider appropriate.’. | Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 19, mewnosoder—<br>‘() Before making regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must carry out such consultation as they consider appropriate.’. | The purpose of this amendment is to amend the section of the Bill which inserts a new section (10A) into the National Health Service (Wales) Act 2006, which enables Ministers to make regulations in relation to the procurement of health services in Wales.<br>The effect of this amendment is to add a requirement that the Welsh Ministers carry out such consultation as they consider appropriate before making regulations under s.10A(1). . |